



## **UMPA**

### **Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

**26 Ebrill 2018**

### **Ystafell Bwyllgor**

---

#### **Presennol:**

Bruce Fraser Wight (BFW) - Swyddog Datblygu Undeb, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr UMPA  
Gwion Llwyd Williams (GLIW) - Swyddog Diwylliant Cymreig, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr  
Jessica Williams (JW) - Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr ac Ymddiriedolwr UMPA  
Molly Jean-Longden (MJL) - Swyddog Llesiant ac Ymddiriedolwr UMPA  
Olympia Petrou (OP) - Ymddiriedolwr Allanol UMPA  
Ryan Beasley (RB) - Ymddiriedolwr Allanol UMPA

#### **Yn gwasanaethu:**

Trish McGrath (TM) - Prif Weithredwr UMPA  
Annmarie Evans (AE) - Cynorthwy-ydd Gweithredol UMPA (yn cymryd cofnodion)

## **GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD**

### **1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Alan Roberts, Peter Curran.

### **2. Datganiadau o Fuddiannau**

Cafwyd datganiad o fuddiannau gan GLIW yn Eitem Agenda 10.

### **3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 16 Chwefror fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

Cytunwyd bod y Polisi Gwariant Cyfalaf yn cynyddu i £5k.

#### **Cymeradwywyd**

### **4. Materion sy'n Codi**

Gwariant Cyfalaf - Hysbysodd TM y Bwrdd bod angen i'r Archwilwyr ddibrisio unrhyw beth dros £250, ond ar ôl edrych ar y rheoliadau ariannol, mae'n nodi mai'r swm yw £1k. Bydd hi'n trafod y mater gyda'r Archwilwyr ond bydd yn ei adolygu'n nes ymlaen.

#### **Ar waith - TM**

## **STRATEGAETH**

### **5. i. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth**

Nododd TM nad oedd unrhyw newidiadau mawr ers y set olaf o gyfrifon rheolaeth. Darparodd TM y Bwrdd â gwybodaeth bellach ar y meysydd lle'r oedd gorwariant a thanwariant

#### **Nodwyd**

### **ii. Cyllideb 2018/19**

Darparodd TM y Bwrdd â'r Gyllideb ar gyfer 2018/19 ac eglurodd ei bod yn union fel cyllideb 2017/2018 ar wahân i Gyflenwi Mamolaeth, a allai adael bwch o -8k. Ar ôl trafod hyn gyda'r Brifysgol, mae TM yn hyderus y bydd y Brifysgol yn gwneud iawn am y bwch ariannol hwn os bydd angen. Eglurodd TM ymhellach ein bod yn besimistaidd o ran yr incwm ac rydym wedi cyllidebu ar gyfer dau swyddog i optio allan o'r cynllun pensiwn. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r Gyllideb.

#### **Cymeradwywyd**

### **6. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Rhoddodd TM drosolwg byr o weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf. Dyma'r meysydd a drafodwyd:

- Mae'r Adran Cyfleoedd yn paratoi ar gyfer BUCS y flwyddyn nesaf, bydd TM yn treulio amser ar Gyfleoedd yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf, gan edrych ar ffyrdd o gynyddu profiad a boddhad myfyrwyr.
- Byddwn yn paentio ac addurno pob ystafell gyfarfod a chyntedd y coridor uchaf, gan gynnwys arwyddion
- Byddwn yn teithio o amgylch UM Cymru ym mis Mai
- Mae posibilrwydd y byddwn ni'n siarad â Busnesau ynglŷn â buddsoddi mewn ystafelloedd, er enghraifft, rhywbeth fel bar trin ewinedd, torri gwallt, a.y.b.
- Dawns yr Haf - Esboniodd TM sut y cafodd y digwyddiad ei ganslo - eglurodd y byddwn yn cymryd hwn yn ôl o'r Brifysgol y flwyddyn nesaf, ac o bosib yn gweithio gyda phobl allanol i redeg y digwyddiad.

Gofynnodd y Bwrdd fod TM yn sicrhau bod gennym bolisi ar waith neu ryw fath o gytundeb wrth weithio gyda Chwmnïau Allanol

#### **Gweithred - TM**

### **7. Adroddiad y Swyddogion**

**Cyfleoedd** - dyma'r meysydd oedd dan sylw:

- Super Teams - gwerthwyd pob lle mewn 40 o eiliadau
- Rhyngolgampau Farsiti - edrych ar Brofiadau Myfyrwyr - profiad o gystadlu yn Farsiti
- Hefyd cyfeiriwyd at Wobrau Cymdeithasau a Gwobrau Chwaraeon

**Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA** - dyma'r meysydd a drafodwyd:

- Rhyngol - Coleg / Rhyngolgampau -
- Mae'n Wythnos RAG yr wythnos hon - elw at uned gofal dwys ysbyty Bronglais
- Wedi newid Cyfansoddiad UMCA - mwy agored - mwy o siaradwyr Cymraeg i gael llais
- Cymdeithas Cymraeg ail iaith - Polisi'r Cyngor - siaradwyr o'r naill ochr a'r llall

**Materion Academaidd** - dyma'r meysydd a drafodwyd:

- Digwyddiad Wise Cymru
- Ailysgrifennu Polisi Cynrychiolwyr
- Streiciau - pasiwyd polisi i gefnogi'r streiciau - rali / te / coffi

**Llesiant** - dyma'r meysydd oedd dan sylw

- *Vagina Monologues*
- Cynhadledd fentora gyntaf
- Mae Molly wedi ennill lle ar Bwyllgor Menywod UCM Cymru

**Datblygu'r UM** - dyma'r meysydd a drafodwyd:

- Cafwyd y diweddaraf ar SIP a sut mae'r Brifysgol yn ailstrwythuro
- Cynhaliwyd grwpiau ffocws o amgylch SIP - wrthi'n asesu adborth
- Cynulliad Cymru - arolygon tai - cael mwy o ysgolion i gyfranogi

Dyweddodd OP wrth y Bwrdd ei bod hi wedi mynychu cyfarfod yng Nghyngor Sir Ceredigion ynglŷn â'u Strategaeth Llesiant, ac yn teimlo y byddai'n syniad da pe bai UMABer yn cymryd rhan. Bydd o gymorth i weithio mwy mewn partneriaeth â'r gymuned. Bydd MJL yn cysylltu â Chymorth Myfyrwyr a bydd OP yn anfon y cynllun draw.

**Gweithredu - MJL/OP**

## **8. Arolwg Ymgysylltiad Staff**

Hysbysodd TM y Bwrdd ei bod hi'n falch iawn o ganlyniad yr adroddiad, mai dim ond ychydig o bethau sydd i weithio arnynt, a byddwn yn symud ymlaen gan edrych ar sut i wella'n barhaus.

**Nodwyd**

## **9. Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

Rhoddodd JG drosolwg o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u diweddarau. Esboniodd y byddai'n eistedd i lawr gyda'r Tîm Cyfleoedd i edrych ymhellach ar y rhain yn ogystal ag Enwebiadau ar gyfer y Gwobrau Addysgu a Gwirfoddoli.

**Gweithred - TM**

## **10. Y Diweddaraŵ ar UCMC**

Rhoddodd TM ddiweddariad o'r trafodaethau hyd yn hyn ynglŷn â Chyfrifoldebau a Rhwymedigaethau Undeb y Myfyrwyr dros UMCA; cyflwynodd TM drosolwg o fesur cyfamserol a gofynnodd am gymeradwyaeth.

**Cymeradwywyd**

## **11. Polisi Diogelu**

Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Bwrdd gytuno ar y polisi fel y mae gyda gwaith pellach i'w gwblhau. Mae'r Bwrdd wedi ei gymeradwyo, cyn belled â'i fod yn cynnwys nodweddion a warchodir - gan gynnwys hunaniaeth rywiol a rhyweddol.

**Cymeradwywyd Gweithredu - TM**

## **12. Diweddaru'r Polisi Diogelu Data a GDPR**

Eglurodd TM ei bod wedi bod yn gweithio gyda'r Brifysgol, yn enwedig Jonathan Davies, Rheolwr Amddiffyn Data a Hawlfraint, ac mae'n hapus â'r hyn yr ydym yn ei wneud. Mae dadl ymhlith UMau ar hyn o bryd i weld a oes angen Swyddog Diogelu Data, ond rydym yn aros ar ymateb

**Cymeradwyo**

## **13. Rheolau Gweithredu**

Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar y Rheolau Gweithredu.

**Nodwyd**

## **14. Cofrestr Risg**

Rhoddodd TM drosolwg o'r Gofrestr Risg wedi'i diweddaru, ac eglurodd fod UMCA a Diogelu Data wedi cael eu hychwanegu. Un o'r meysydd y byddwn yn edrych arnynt eto yw Cyfryngau Myfyrwyr Aber; byddwn yn edrych ar yr Undebau sydd yr un maint â ni, er mwyn gweld beth maen nhw'n ei wneud a sut y gallwn ni addasu a darparu hyfforddiant.

**Gweithredu - TM**

### **Unrhyw fusnes arall**

Ymddiheuriadau - Cyflwynodd Molly ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod nesaf, gan ei bod hi i ffwrdd gydol mis Mehefin

Amcanion y Prif Weithredwr - i'w drafod gydag Olymbia

Diolchodd y Bwrdd i EB am ei holl waith caled a'i chefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel Swyddog Materion Academaidd, gan ddymuno'n dda iddi yn ei rôl newydd.

### **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Llun 18 Mehefin, am 1pm